**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru

04 Mai 2018

Annwyl Kirsty

**Cod Trefniadaeth Ysgolion**

Yn ystod y cwestiynau heb rybudd gan lefarwyr y pleidiau yng Nghyfarfod Llawn yr wythnos ddiwethaf (25 Ebrill), gwnaethoch gadarnhau eich bod yn bwriadu cyhoeddi'r cod trefniadaeth ysgolion cyn toriad yr haf.

Trafododd y Pwyllgor y mater hwnnw yn ei gyfarfod yr wythnos hon, ac mae'n croesawu eich bwriad i weithredu'r cod hwn erbyn dechrau'r tymor ysgol newydd. O ystyried perthnasedd y cod i gylch gwaith y Pwyllgor, mae aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i gydweithio â chi i helpu llunio'r cod. Gan hynny, byddem yn falch o gael cyfle i weld y cod drafft cyn iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad.

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu rhagor o fanylion ynghylch pryd y bydd ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cod ar gael yn gyhoeddus.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565